

GUIDE  
DOGS



Cymru

Modiwl 2 Rhagdybiaethau a safbwyntiau

# 'Sut fydddech chi'n teimlo?'



“

Mae pobl yn meddwl eich bod yn dda i ddim a hyd yn oed pan rwyf wedi bod allan gyda Lewis, mae pobl wedi ceisio fy helpu i groesi'r ffordd heb i mi ofyn iddynt wneud hynny sy'n frawychus.

**Deborah**

“

Pan fyddaf allan gyda fy mam mewn caffi neu dŷ bwyta bydd pobl yn siarad â hi ac yn gofyn iddi beth hoffwn i, fel nad ydw i yno.

**Hannah**

“

Mae pobl yn meddwl fod gan fy nghi sglodyn llywio â lloeren. Nid ydynt yn gwerthfawrogi mai fi yw'r un sy'n dweud wrthi ble i fynd a'i bod hi'n gwneud yn siŵr fy mod yn cyrraedd yno'n ddiogel.

**Rosie**

“

Unwaith, gofynnais i berson am gyfarwyddiadau ac fe roddon nhw'r cyfarwyddiadau i'r ci! Dywedais wrthynt, er bod River yn glyfar iawn nad yw hi'n gallu siarad a dweud wrthyf beth maen nhw newydd ddweud wrthi!

**Kelly**

“

Mae pobl yn meddwl fy mod yn dwp. Gallaf ddweud mai dyna maen nhw'n ei feddwl.

**Debbie**

“

Nid robot yw Libby ond ci. Mae'n fy nghythrudo pan fydd pobl yn dweud, 'Dwi ddim yn meddwl fod cŵn tywys fod i gyfarth.'

**Lora**

“

Un tro, mewn caffi, cydiodd rhywun ynof i'm helpu ac mi arllwysais fy niod. Dyma nhw wedyn yn dweud wrthyf fod angen help arnaf gan fy mod wedi arllwys fy niod ond eu bai nhw oedd y cyfan gan fy mod yn gwneud yn iawn cyn iddyn nhw ddod ar fy nhraws.

**Holly**